



# Sefydlu meithrinfa goed ar raddfa fach

## Cyflwyniad

Mae diddordeb cynyddol mewn casglu hadau coed gan grwpiau coetir cymunedol yng Nghymru, i'w tyfu mewn meithrinfeydd bychain yn eginblanhigion neu drawsblaniadau. Diben y canllaw byr hwn yw darparu rhestr wirio gryno o beth sy'n ofynnol i dyfu symiau bychain o goed brodorol o ansawdd dda a chyfeirio darllenwyr at ffynonellau perthnasol o wybodaeth fanylach. Mae wedi'i anelu'n bennaf at reolwyr coetir sydd wedi casglu eu hadau coed lleol eu hunain ac yn dymuno tyfu coed at eu defnydd eu hunain.

## Pam tyfu eich coed eich hun?

Fel rheolwr coetir mae sawl budd posib i dyfu eich stoc eich hun, gan ddefnyddio hadau a gasglwyd yn lleol. Mae tyfu hadau a gasgloch eich hun yn cynnig sawl cyfle addysgol ac ymgysylltu cymdeithasol arall, a gall gwirfoddolwyr o bob gallu gynnal y gweithgareddau. Efallai y bydd rheolwyr coetir yn dymuno epilio coed o darddle lleol neu gynhyrchu stoc o goden unigol benodol y maent yn gweld gwerth ynddi, a chasglu hadau'n bersonol yw un ffordd o gyflawni hyn. Mae'n bwysig bod yn glir am eich rhesymau dros dyfu coed - faint o goed sydd eu hangen arnoch ac i beth sydd eu hangen arnoch? Ai'r bwriad yn y pen draw yw cynhyrchu pren o ansawdd dda neu a yw buddion ecolegol eraill yn bwysicach? Mae'n bosib sefydlu coetir yn syml drwy hau hadau yn uniongyrchol ar y safle. Fodd bynnag, er bod hwn yn ddull rhad, mae'r gyfradd lwyddo yn anrhagweladwy ac yn aflwyddiannus yn gyffredinol ar safleoedd gwlyb ac mewn cynefinoedd coetir sefydledig o ganlyniad i golledion ysglyfaethu gan famaliaid ac adar sy'n bwyta hadau. Ar y safleoedd hyn, bydd plannu eginblanhigion neu drawsblaniadau â gwreiddiau da, wedi'u tyfu mewn meithrinfeydd yn fwy llwyddiannus.<sup>11</sup>



Llais y Goedwig, Unit 1, Dyfi Eco Park, Machynlleth, Powys, SY20 8AX



Os ydych yn dymuno sefydlu mwy o goed mewn coetir lled-naturiol hynafol, gall annog adfywiad naturiol fod yn fwy priodol a gallai fod yn fwy llwyddiannus yn y tymor hwy.

Mae tyfu symiau bychain o goed yn gymharol syml a gellir ei wneud gydag ychydig iawn o brofiad garddwriaethol, ond mae cynhyrchu symiau mwy o stoc dyfu o ansawdd dda yn gofyn lefel uwch o ymrwymiad, cynllunio a sgil. Mae gan feithrinfeydd coed masnachol mawr flynyddoedd o brofiad o dyfu deunydd tyfu y mae ei ansawdd wedi'i sicrhau a gallant gadw costau gweithredu yn isel o ganlyniad i'r raddfa y maent yn gweithio arni. O ganlyniad, gallant werthu stoc dyfu am brisiau cystadleuol iawn. Er mai arbed costau neu gynhyrchu incwm ychwanegol yw'r prif gymhellion dros sefydlu meithrinfa ar raddfa fach, nid yw cyflawni'r rhain yn hawdd.

## Rhwymedigaethau cyfreithiol

Os ydych yn bwriadu gwerthu unrhyw rai o'r coed tyfu yr ydych yn epilio yna mae angen i chi lynu at y rheoliadau Deunydd Atgennedlol Coedwigoedd (2002). Fel rhan o hyn, bydd angen i chi gofrestru fel cyflenwr a chadw cofnodion da o'r hadau a'r stoc dyfu a gynhyrchir gennych. Rhaid i dystysgrif Feistr fod yn ynghlwm ag unrhyw goed a werthwch fel eu bod yn gwbl olrheiniadwy o hadau i goeden. Ceir rhagor o fanylion yn *Rhwymedigaethau cyfreithiol wrth gasglu hadau coed yng Nghymru*. Mae safonau diffiniedig a phrotocolau gweithredu wedi cael eu cynhyrchu i reoli risgiau i iechyd coed mewn meithrinfeydd coed (Grŵp Llywio Cynghrair Iechyd Coed 2019). Er eu bod wedi'u hanelu at gynhyrchwyr mawr, mae rhannau'r un mor berthnasol i feithrinfeydd bychain.<sup>1,2,12</sup>

## Sefydlu meithrinfa goed fechan

Un o'r penderfyniadau cyntaf y mae'n rhaid i chi ei wneud yw dewis maint a math y system gynhyrchu sy'n addas i chi. Os yw eich adnoddau yn brin neu nid oes gennych brofiad meithrinfa blaenorol mae'n bwysig peidio â bod yn rhy uchelgeisiol - dechreuwch yn fach, dysgwch sut mae gwneud iddo weithio a gallwch ehangu'r feithrinfa yn ddiweddarach. Er bod pob meithrinfa yn wahanol, mae tri dull cynhyrchu a ddefnyddir ar gyfer epilio hadau coed:

"Tyfu yn y cae", lle mae'r coed yn cael eu tyfu tu allan yn gyfan gwbl a'r eginblanhigion yn cael eu plannu fel rhai â 'gwreiddiau noeth'.

"Tyfu mewn cell", lle mae'r coed yn cael eu tyfu mewn celloedd unigol (hyfforddwyr gwreiddiau) mewn twnelau polythen. Mae stociau a dyfir mewn celloedd yn fwy drud i'w cynhyrchu, ond nid yw'r gwreiddiau wedi'u gwasgaru cymaint pan fe'u plannir tu allan, felly gallant oroesi yn well.

"Croesryw cell a chae", lle caiff y coed eu plannu mewn hyfforddwyr gwreiddiau i ddechrau mewn twannel polythen cyn eu trosglwyddo i welyau tu allan i'w tyfu.

Mae manteision ac anfanteision i bob dull ac mae'r dull mwyaf addas yn dibynnu ar nifer o ffactorau, yn cynnwys cyllid, cyfleusterau (tir, twnelau polythen, etc) a faint o lafur sydd ar gael.<sup>2</sup>

Pa bynnag system a ddefnyddiwch, mae pedwar o ofynion allweddol ar gyfer pob meithrinfa goed lwyddiannus:

**Lleoliad addas:** Canllaw bras i'r ardaloedd tyfu (gwelyau meithrinfeydd / gwelyau lein / twnelau polythen) sy'n ofynnol yw ~130-170 o blanhigion fesul metr sgwâr ar gyfer planhigion a dyfir mewn cynwysyddion neu 40-100 o blanhigion fesul metr sgwâr o dir wedi'i baratoi ar gyfer planhigion a dyfir mewn cae. Bydd angen yr un faint o le arnoch ar gyfer caledu stoc ac, os yw'n bosib, adeiladau ar gyfer storio offer, potio, storio/haenu hadau, etc. Mae hefyd yn help mawr os yw safle eich meithrinfa yn wastad, wedi'i gysgodi rhag gwyntoedd cryf, ac wedi'i ddraenio'n dda. Gall safleoedd sy'n wynebu tua'r de gael problemau gyda gorboethi, tra gall pantiau sy'n wynebu tua'r gogledd fod yn rhewllyd a gall eginblanhigion ddifetha'n hawdd os ydynt yn sychu gormod neu'n rhewi. Mae angen i'r safle fod yn ddiogel hefyd, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae fandaliaeth yn broblem.

**Cyflenwad dŵr:** Mae ffynonellau dibynadwy o ddŵr yn hanfodol. Mae eginblanhigion yn gallu sychu i fyny yn hawdd iawn, felly rhaid bod cyflenwad cyson a digonol o ddŵr ar gael gydol y flwyddyn. Os ydych yn ystyried echdynnu dŵr o gyflenwad naturiol dylech ymgynghori â CNC rhag ofn bod trwydded echdynnu'n ofynnol. Mae cynllunio'n ofalus sut y bydd eich eginblanhigion yn cael eu dyfrio yn hanfodol.

**Mynediad:** Rhaid i'r feithrinfa fod yn ddiogel a hygyrch ym mhob tymor ac yn ddelfrydol yn agos at ffordd fel y gellir danfon deunyddiau yn hawdd, a symud coed oddi yno. Sicrhewch fod caniatâd i ddefnyddio'r tir fel meithrinfa wedi cael ei roi'n glir.

**Amser:** Ni ddylid tanamcangyfrif yr amser sydd ei angen i dyfu coed o ansawdd dda. Bydd eginblanhigion bob amser yn gwneud eu gorau glas i oroesi, ond maent yn fwy tebygol o lawer o ffynnu a thyfu'n goed llawn twf â gwreiddiau da os ydynt yn cael eu dyfrio, chwynnu a thrawsblannu'n gywir. Y tymhorau prysuraf fel rheol yw'r gwanwyn pan mae angen hau hadau, a'r hydref pan mae angen casglu a phrosesu hadau a photio/trawsblannu eginblanhigion. Fodd bynnag, bydd gwaith i'w wneud yn y feithrinfa bob mis o'r flwyddyn. Mae'r Tabl isod yn rhoi syniad o'r amseru ar gyfer gweithgareddau meithrinfa amrywiol.<sup>4,5,6</sup>

Gweithgaredd	Ionawr	Chwefro r	Mawrth	Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr
Casglu hadau					X	X	X	XX	XX	XX	XX	
Haenu hadau								XX	XX	XX	XX	X
Hau		XX	XX	XX	X	X				XX	XX	
Chwynnu				XX		XX	X		X			
Dyfrio			X	X	XX	X	XX	XX	X	X		
Rheoli plâu			X			XX	X	XX	X			
Caledu							X	X	X	X	X	
Trawsblannu / potio	X	X				XX	X			X	XX	XX
Graddio	X	X							XX	XX	XX	XX
Cynnal a chadw offer	X	X	X							X	X	X
Plannu coed	X	X	X							X	X	X

**Adnoddau ariannol:** Rhaid ystyried yn ofalus yr adnoddau sydd gennych ar gael. Yr adnodd mwyaf gwerthfawr yw cyflenwad llafur dibynadwy (a rhywun i'w goruchwyllo). Gellir rhedeg meithrinfeydd ar raddfa fach sy'n cynhyrchu stoc dyfu â gwreiddiau noeth gyda chostau is, ond os ydych yn dymuno tyfu hadau mewn celloedd, yna rhaid cyfrif am gost twnelau polythen, hyfforddwyr gwreiddiau a'r cyfrwng tyfu.<sup>3</sup>

### Gweithgareddau Meithrinfa hanfodol:<sup>3,4,5,6,9</sup>

**Storio hadau:** Gan ddechrau gyda'r hadau rydych wedi'u casglu, y dasg gyntaf yn y feithrinfa yw eu glanhau a'u prosesu fel y gellir eu storio'n ddiogel hyd nes y maent yn barod i'w plannu. Rhaid echdynnu hadau o ffrwythau noddolawn yn y lle cyntaf, naill ai gyda llaw neu'n fecanyddol yn dibynnu ar y swm sydd gennych. Unwaith y byddant yn lân, gellir storio nifer o hadau mewn amodau oer a sych (ond ddim rhy sych) tan amser plannu. Ni fydd rhywogaethau eraill yn egino oni bai eu bod wedi mynd drwy gyfnod o oeri, ac mae'n rhaid eu storio'n ofalus ar y lleithder a'r tymheredd cywir am hyd at ddwy flynedd. Mae oergell yn ddefnyddiol ar gyfer storio rhai hadau mewn bagiau, tra gellir storio eraill mewn cymysgedd o gompost a thywod gwlyb mewn cynwysyddion sy'n wrth-blâu tu allan. Mae rhai rhywogaethau megis y Dderwen yn hynod fyrhoedlog a rhaid plannu mes ar unwaith.<sup>3,4,5,8</sup>

**Hau:** Mae dau brif dymor hau - yr hydref ar gyfer hadau byrhoedlog megis y Dderwen, a'r gwanwyn (pan nad oes risg o'r tir yn rhewi mwyach) ar gyfer y rhan fwyaf o rywogaethau. Gellir hau hadau bychain ar wasgar mewn gwelyau wedi'u paratoi neu hambyrddau hadau i'w pigo allan yn ddiweddarach. Gellir planau hadau mwy yn unigol.

### Storio hadau ar gyfer rhywogaethau coed gwahanol:

<a href="#">Anodd eu storio – hau ar unwaith</a>	Storio mewn amodau sych ac oer am 1 gaeaf	Haenu - storio mewn amodau oer, gwlyb am 1 gaeaf	Haenu - storio mewn amodau oer, gwlyb am 2 neu fwy o aeafau
Derwen	Gwernen	Coeden geirios yr adar	Onnen
Aethnen	Bedwen	Draenen Ddu	Draenen Wen
Ffawyddden	Pinwydden	Coeden Afalau Surion	Celynnen
Poplysen	Banhadlen	Ysgawen	Ywen
Castanwydden Bêr	Eithinen Ffrenig	Masarnen Fach	Rhosyn Gwylt
Helygen		Coeden Gyll	Piswydden
Llwyfen Lydanddail		Criafolen	
		Coeden Geirios Ddu	
		Gwifwrnwydd y Gors	

**System coed wedi'u tyfu'n agored / gwelyau wedi'u codi (gwreiddiau noeth):** Bydd angen paratoi gwelyau addas ymhell cyn hadu. Yn dibynnu ar y raddfa, gallwch wneud hyn yn defnyddio offer llaw, peiriannau palu neu beiriannau fferm mwy. Mae ansawdd y pridd a ffrwythlondeb yn bwysig, ond mae system ddraenio dda yn bwysig hefyd, a chael gwedd da gyda digonedd o ddefnydd organig fel y gellir ffurfio pridd mân nad yw'n sychu'n rhy gyflym. Mae gwelyau wedi'u codi, lle mae pridd wedi'i bentyrru yn stribedi rhwng llwybrau yn gweithio'n dda, ond gwnewch yn siŵr nad ydynt yn rhy lydan neu bydd chwynnu yn anodd.

**System tyfu mewn cell:** Mae pridd pur fel rheol yn rhy drwchus i annog twf coed da, felly bydd angen paratoi cyfrwng tyfu i lenwi'r celloedd. Gellir naill prynu un i mewn, neu greu un eich hun yn defnyddio cymysgedd o dywod, fermicwilit / gronnau sy'n dal dŵr, calch, gwrteithiau, etc. Mae cynwysyddion yn well wedi'u codi oddi ar y llawr ar lwyfannau neu feinciau (mae hyn yn caniatáu bwlch aer oddi tanynt, annog twf gwreiddiau tu mewn i'r celloedd a hwyluso rheoli plâu a photio hefyd). Os gellir llenwi celloedd a phlannu hadau dan do mae hyn yn gwneud y gwaith yn llai llafurus a llai dibynnol ar dywydd.

**Dyfrio:** Mae hyn yn hanfodol i gadw'r eginblanhigion yn iach a sicrhau ei fod yn parhau i dyfu. Mae rhywogaethau sydd â hadau ysgafn megis y Fedwen a'r Wernen yn hynod sensitif yn ystod camau cyntaf twf. Gall gormod o ddyfrio, fodd bynnag, beri problemau hefyd. Mae dyfrio gyda llaw yn cymryd llawer o amser a gall ddod yn waith beichus yn sydyn iawn, felly mae systemau awtomataidd sy'n defnyddio ysgeintwyr neu linellau dyfrio yn ddefnyddiol iawn a gallant leihau faint o ddŵr sydd ei angen - ond bydd angen eu gwirio'n rheolaidd o hyd. Gall gofynion dŵr yn ystod misoedd yr haf fod yn uchel, felly gwnewch yn siŵr bod gennych gyflenwad o ddŵr gydol y flwyddyn a chaniatâd i echdynnu os oes angen. Gall storio dŵr glaw fod yn ddefnyddiol, yn enwedig os oes gennych adeiladau gyda thoeon mawr ar y safle.

**Chwynnu:** Mae hyn hefyd yn bwysig i sicrhau y cynhyrchir eginblanhigion sy'n tyfu'n dda, ond gall gymryd llawer o amser. Mae'n well cael gwared ar chwyn yn gynnar, cyn iddynt ddechrau cystadlu â'r eginblanhigion a daw gwreiddiau yn anodd eu gwahanu. Mae chwynnu planhigion a dyfir mewn cell yn hanfodol ac yn llai o laddfa os codir y llwyfannau i uchder addas. Ar gyfer gwelyau tyfu'n agored gall taenu tywod mân dros arwyneb y pridd helpu i ffrwyno chwyn neu gellir defnyddio chwynladdwr cemegol. Os defnyddir unrhyw chwynladdwyr, dilynwch y cyfarwyddiadau ynghylch faint i'w ddefnyddio, defnydd (yn enwedig wrth ymyl dyfrffosydd), storio a gwaredu diogel.<sup>10</sup>

**Bwydo:** Dylai'r pridd neu'r cyfrwng tyfu allu cyflenwi'r holl faetholion ar gyfer yr eginblanhigion ifanc iawn, ond i sicrhau eu bod yn parhau i dyfu yn ddiweddarach yn y flwyddyn gallai bwyd ategol fod yn ddefnyddiol. Ar gyfer stoc a dyfir mewn cell, gellir taenu gwrtait hylif (un wedi ei greu gennych neu un wedi ei brynu i mewn) gan ddefnyddio can dyfrio neu linellau dyfrio os ydych yn eu defnyddio ('fertigation'). Ar gyfer stoc a dyfir mewn cae, gellir defnyddio gwrtait gronnog neu deilo, etc hefyd.

**Rheoli plâu:** Mae hadau ac eginblanhigion yn agored i amrywiaeth eang o blâu a rhaid eu rheoli i atal colledion a all fod yn rhwystredig a chostus. Gall llygod, cnofilod a gwiwerod dyrchu hadau wedi'u hau felly mae angen eu cau allan gan ddefnyddio rhwyll cyw iâr a gall codi celloedd / hambyrddau hadau oddi ar y llawr ar lwyfannau helpu. Mae eginblanhigion ifanc iawn yn agored iawn i orddyfrio a llwydni, rhwd ffwngaid a gall pryfed duon achosi problemau hefyd. Gall anifeiliaid sy'n pori megis cwningod, defaid neu geirw ymosod ar eginblanhigion hŷn, felly os yw'r rhain yn bresennol, efallai bydd rhaid ffensio'r safle. Mae monitro'r cnwd yn ofalus ar bob cam yn ofynnol i osgoi colledion sylweddol.

**Trawsblannu / tandorri:** Fel rheol mae eginblanhigion a dyfir mewn cae yn aros yn y fan a'r lle am hyd at flwyddyn ac yna'n cael eu tandorri (tocio gwreiddiau) neu eu trawsblannu i wely arall i dyfu am ail flwyddyn. Gwneir hyn i annog twf gwreiddiau cryfach a fydd yn cynnal y goeden pan gaiff ei phlannu yn y pen draw.



Os na wneir hyn, mae eginblanhigion yn tueddu i dyfu llai o wreiddiau neu ddatblygu gwreiddiau hynod hir sy'n gwneud plannu'n anodd. Os defnyddir hyfforddwyr gwreiddiau gellir agor y rhain allan yn aml i wirio a yw'r gwreiddiau yn tyfu'n dda, dylai dyluniad y celloedd atal y gwreiddiau rhag troelli o gwmpas, y dylid ei osgoi.

**Caledu:** Gellir plannu eginblanhigion a dyfir mewn celloedd allan yn eu hydref cyntaf pan maent yn dal yn eu dail, sy'n golygu y gallant barhau i sefydlu eu hunain cyn cysgu. Fodd bynnag, os tyfir hwy mewn twnelau polythen yna dylid eu hymgynefino â'r awyr agored (caledu), sawl wythnos cyn y bwriedir eu plannu.

**Cynnal a chadw offer:** Tasg bwysig arall na ddylid ei hanwybyddu yw cynnal a chadw offer y feithrinfa yn barhaus. Os ydych yn defnyddio hambyrddau hadau neu hyfforddwyr gwreiddiau yna mae'n werth eu glanhau a'u storio yn ofalus. Gall hyfforddwyr hadau fod yn wariant sylweddol ond gellir eu defnyddio droeon am bump i chwe blynedd os gofali amdanynt. Mae angen cynnal a chadw offer llaw a pheiriannau yn drylwyr hefyd i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

**Iechyd a Diogelwch:** Beth bynnag fo maint y feithrinfa, dylai'r holl staff / gwirfoddolwyr fod yn ymwybodol o'r risgiau posib ar y safle ac yn y gwaith ynghlwm. Dylid darparu cit Cymorth Cyntaf priodol, ac yn ddelfrydol dylai fod yna swyddog cymorth cyntaf hyfforddedig yn bresennol pryd bynnag y mae pobl yn gweithio ar y safle. Cyfrifoldeb rheolwr y feithrinfa yw sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelwch priodol ac y cydymffurfir â'r rhain. Mae gwaith meithrinfa yn debyg i waith coetir arall a gall gynnwys defnyddio offer llaw a pheiriannau, codi a chario, a gweithio yn yr awyr agored ym mhob tywydd. Bydd hyfforddiant ychwanegol yn ofynnol os defnyddir cemegau peryglus ac argymhellir bod unrhyw un sy'n trin pridd neu gompost yn cael imiwneiddiad tetanws. Er yn brin iawn, mae rhai afiechydon, megis sborotrichosis a all fod yn gyffredin ymhlith gweithwyr meithrinfa sy'n trin deunydd plannu megis migwyn mewn compost. Argymhellir gwisgo dillad addas (menig a llewys hir) sy'n lleihau'r risg o niwed i'r croen.

**Hylendid:** Dylech osgoi mewnfario afiechydon / plâu planhigion - peidiwch â derbyn deunydd plannu neu gyfrwng tyfu o du allan i'r feithrinfa oni bai fe'i ceir gan gyflenwr achrededig gyda safonau hylendid da; Dylid dinistrio unrhyw blanhigion heintus ar unwaith - mae llosgi yn well na chompostio oni bai y gellir gwneud hyn yn drylwyr ac ar dymheredd uchel. Cadwch ardal y feithrinfa yn lân ac yn rhydd o chwyn gan y gallai'r rhain ledaenu i'r gwelyau hadau neu fod yn nyth i blâu a all heintio'r coed sy'n tyfu. Cadwch arwynebau gweithio, offer ac unrhyw hambyrddau neu botiau yn lân (gellir defnyddio cannydd domestig wedi'i wanedu gyda gofal).<sup>14</sup>

#### Pwyntiau Allweddol:

- ◇ Peidiwch â bod yn rhy uchelgeisiol i ddechrau arni - dechreuwch yn fach ac enillwch brofiad
- ◇ Cynlluniwch ymlaen llaw, paratowch eich meithrinfa / storfa hadau cyn casglu'r hadau
- ◇ Deallwch yr holl brosesau gwahanol sy'n ofynnol a phenderfynwch pa system fydd yn gweithio orau i chi
- ◇ Gwenwch yn siŵr bod gennych ddigon o lafur i gyflawni'r holl waith sy'n ofynnol
- ◇ Tuedda meithrinfeydd llwyddiannus i fod yn rhai sy'n tyfu ar gyfer prosiect penodol a meddu ar gyrchfan sicr ar gyfer yr holl goed a gynhyrchir

## Adnoddau ar gyfer meithrinfeydd coed

1. FC Forest Reproductive Material: Regulations controlling seed cuttings and planting stock for forestry in Great Britain (2019) ar-lein yn: <https://www.forestresearch.gov.uk/research/forest-reproductive-material-regulations-controlling-seed-cuttings-and-planting-stock-for-forestry-in-great-britain-2nd-edition/>
2. Business Planning workbook for local provenance tree nurseries (2008) Wild Resources Limited Ar gael ar-lein yn: <https://www.wildresources.co.uk/small-scale-tree-nurseries.shtml>
3. Canllaw Ymarfer #18 yr FC: Raising trees and shrubs from seed (2007). Ar gael ar-lein yn: <https://www.forestresearch.gov.uk/research/raising-trees-and-shrubs-from-seed/>
4. The Good Seed Guide. Y Cyngor Coed (heb ei ddyddio) ISBN 0-904853-01-2
5. TCV Handbook: Tree planting & Aftercare. Chapter 6. Propagation: <https://www.conservationhandbooks.com/tree-planting-aftercare/propagation/>
6. Growing native trees from seed: A practical guide to tree nursery production. (heb ei ddyddio) Cliff Webb, Glasu publication Ar gael ar-lein yn: [https://llaisygoedwig.org.uk/wp-content/uploads/2013/12/Glasu-Growing\\_native\\_trees\\_from\\_seed\\_tree\\_nursery\\_production\\_guide.pdf](https://llaisygoedwig.org.uk/wp-content/uploads/2013/12/Glasu-Growing_native_trees_from_seed_tree_nursery_production_guide.pdf)
7. Bwletin 121 yr FC (1999) *Forest Tree Seedlings – Best Practice in Supply, Treatment and Planting* Y Comisiwn Coedwigaeth. Ar gael ar-lein yn: <https://www.forestresearch.gov.uk/research/archive-forest-tree-seedlings/>
8. Collins Guide to Tree planting & cultivation(1970) Edlin H.L. Published by Collins ISBN 0 00 219159 8 (Old, but good introduction)
9. Bwletin 111 yr FC. Forest Nursery Practice (1994). Aldhous, J.R. Ar gael ar-lein yn: <https://www.forestresearch.gov.uk/research/archive-forest-nursery-practice-2ed/>
10. Pesticides: Code of practice for using plant protection products (applies to Herbicides) DEFRA (2006). Ar gael ar-lein yn: [https://www.hse.gov.uk/pesticides/resources/C/Code\\_of\\_Practice\\_for\\_using\\_Plant\\_Protection\\_Products\\_-\\_Complete20Code.pdf](https://www.hse.gov.uk/pesticides/resources/C/Code_of_Practice_for_using_Plant_Protection_Products_-_Complete20Code.pdf)
11. Canllaw Ymarfer 16 y Comisiwn Coedwigaeth (2004) Creating new Broadleaved woodland by direct seeding. Ar gael ar-lein yn: <https://www.forestresearch.gov.uk/research/creating-new-broadleaved-woodland-by-direct-seeding/>
12. Plant Healthy: Plant health management standard: general requirements for plant growers and suppliers (2019). Ar gael ar-lein yn: <https://planthealthy.org.uk/resources>
13. Forest Research note: Biosecurity: Plant health for the horticultural sector. Ar gael ar-lein yn: <https://planthealthy.org.uk/resources/plant-health-for-the-horticultural-sector-key-considerations>



## GYMRYD RHAN

I gael gwybod mwy:

## GET INVOLVED

To find out more:

[DEWISGWYLLT.CO.UK](http://DEWISGWYLLT.CO.UK)

   [dewisgwylt](https://twitter.com/dewisgwylt)

Llais y Goedwig, Unit 1, Dyfi Eco Park, Machynlleth, Powys, SY20 8AX

